**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(HEOL TYNANT A HEOL Y PLWYF, BEDDAU)**

**HYSBYSIAD (CROESFAN I GERDDWYR) 2024 A**

**HYSBYSIAD (MESURAU ARAFU TRAFFIG) 2024**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Yn dilyn galw parhaus gan y gymuned i wella diogelwch cerddwyr ar Heol Tynant, Beddau. Mae'r Cyngor yn bwriadu gosod man croesi ffurfiol ar Dwmpathau Ffordd Lled Llawn gyda Phennau Gwastad ger Llyfrgell Cymuned Beddau a Thynant.

Er mwyn hwyluso'r newidiadau arfaethedig, rhaid i ni adleoli'r safle bws presennol o'r man y tu allan i Swyddfa Bost Beddau i ochr 1 Trem Garth. Bydd hyn yn cynnwys lledaenu llwybr troed lleoler mwyn cynnwys cysgodfan safle bws newydd a lleihau pellter y groesfan i gerddwyr.

Yn ogystal â'r uchod, rydyn ni'n bwriadu cynnal gwaith i wella'r groesfan bresennol ger 28 Heol y Plwyf. Mae'r Cyngor yn bwriadu ailbeintio'r groesfan sebra gan ddilyn safonau dylunio cyfredol a chynyddu ei broffil fertigol. Dylai hyn lleihau cyflymder cerbydau a gwella diogelwch y ffordd ar gyfer pob defnyddiwr sy’n teithio ar hyd y B4595.

Mae'r mesurau yma wedi'u cynnig dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 er mwyn hwyluso tramwy cerbydau, atal perygl tebygol a gwella diogelwch ar gyfer holl ddefnyddwyr y briffordd.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(TYNANT ROAD AND PARISH ROAD, BEDDAU)**

**(PEDESTRIAN CROSSING) NOTICE 2024 AND**

**(TRAFFIC CALMING MEASURES) NOTICE 2024**

**STATEMENT OF REASONS**

Following longstanding calls from within the community to improve pedestrian safety on Heol Tynant, Beddau. The council seek to establish a formal crossing point situated on a flat top speed hump adjacent to Beddau and Tynant Community Library.

In order to facilitate the proposed changes, we must relocate the current bus stop from outside Beddau Post Office to the side of 1 Garth View. This shall comprise of a localised footway widening to accommodate a new bus shelter and reduce the pedestrian crossing distance.

Further to the above, we intend to undertake improvement works on the existing crossing point near 28 Parish Road. The council bring forth their intention to bring the foregoing zebra-type crossing in line with current design standards and increase its vertical profile. This should reduce vehicle speeds and improve road safety for all highway users along the B4595.

These measures are proposed under the Road Traffic Regulation Act 1984 to facilitate the passage of traffic, prevent the likelihood of danger and improve safety for all highway users.